Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU

Gwneir y Cynllun hwn dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yng nghyswllt Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IPRW) sy'n weithredol i aelodau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

1. Cyflog Sylfaenol

1.1 Caiff Cyflog Sylfaenol ei dalu i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod.

1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, caiff cyfradd y Cyflog Sylfaenol ei adolygu'n flynyddol a'i benderfynu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

1.3 Pan fo cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen heblaw ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd eu hawl i'r Cyflog Sylfaenol yn pro rata.

1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2. Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig

2.1 Caiff Cyflog Uwch ei dalu i aelodau sydd â swyddi penodol fel y nodir yn **Atodlen 1**.

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, caiff cyfraddau Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig eu hadolygu'n flynyddol fel y penderfynir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

2.3 Dim ond un Cyflog Uwch neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2.4 Ni ellir talu Cyflog Uwch a Chyflog Dinesig i Aelod o'r Awdurdod.

2.5 Mae'r holl Gyflogau Uwch a Dinesig a gaiff eu talu yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.

2.6 Ni cheir talu Cyflog Uwch i fwy na'r nifer o aelodau a nodir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn uwch na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, heblaw i gynnwys deiliad swydd Uwch Gyflog sy'n llanw dros dro ar gyfer absenoldeb teuluol y deiliad swydd a benodwyd.

2.7 **Ni** all Aelod o'r Awdurdod sy'n derbyn Cyflog Uwch dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y cawsant eu henwebu ar eu cyfer.

2.8 Pan fo cyfnod swydd Cyflog Uwch neu Gyflog Dinesig Aelod yn dechrau neu'n gorffen heblaw ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd eu hawl i'r Cyflog yn pro rata.

3. Dewis Hepgor Hawl i Lwfans

3.1 Gall Aelod, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol yr awdurdod, yn bersonol ddewis hepgor unrhyw ran o'u hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi taladwy dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

4. Atal Aelod

4.1 Lle cafodd Aelod o'r Awdurdod ei atal neu ei atal yn rhannol o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau o'r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau) neu reoliadau a wnaed dan y Ddeddf, caiff y rhan o'r Cyflog Sylfaenol sy'n

daladwy iddo yng nghyswllt y cyfnod hwnnw y maent wedi ei atal amdano ei gadw'n ôl gan yr Awdurdod (Adran 155(1) y Mesur).

4.2 Lle caiff Aelod sy'n derbyn Cyflog Uwch ei atal neu ei atal yn rhannol rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio gwneud taliadau o uwch Gyflog yr Aelod ar gyfer cyfnod yr ataliad (Adran 155(1) y Mesur). Gall yr Aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol os yw'r ataliad rhannol yn cyfeirio'n unig at elfen cyfrifoldeb penodol y taliad.

5. Ad-dalu Cyflogau, Lwfansau neu Ffioedd

5.1 Lle talwyd unrhyw gyflog, lwfans neu ffi i Aelod o'r Awdurdod neu Awdurdod Cyfetholedig yng nghyswllt unrhyw gyfnod y mae'r Aelod dan sylw:

(a) wedi ei atal neu ei atal yn rhannol o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau Aelod/Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 Deddf 2000 neu reoliadau a wnaed dan y Ddeddf honno;
(b) yn peidio bod yn Aelod o'r Awdurdod neu'n Aelod Cyfetholedig; neu
(c) mewn unrhyw ffordd arall heb fod â hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi yng nghyswllt y cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn ei gwneud ofynnol i'r rhan honno o'r lwfans sy'n cyfeirio at unrhyw gyfnod o'r fath gael ei ad-dalu.

6. Taliadau

6.1 Caiff taliad pob lwfans eu gwneud gan y Prif Swyddog Adnoddau drwy gredyd banc uniongyrchol mewn rhan-daliadau o ddeuddegfed rhan o hawl blynyddol yr Aelod ar 15fed diwrnod pob mis.

6.2 Lle mae taliad wedi arwain at i Aelod dderbyn mwy na'u hawl i gyflog, lwfans neu ffi, bydd yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan honno sy'n or-daliad gael ei ad-dalu.

6.3 Mae pob taliad yn agored i ddidyniadau priodol ar gyfer treth ac Yswiriant Gwladol.

7. Ad-dalu Costau Gofal

7.1 Caiff costau gofal eu talu i Aelod neu Aelod Cyfetholedig sydd â chyfrifoldeb gofal am blant neu oedolion dibynnol, neu ofyniad gofal personol, os yw'r Aelod yn mynd i dreuliau wrth ddarparu gofal o'r fath tra'n gwneud dyletswyddau cyngor 'cymeradwy'.

7.2 Mae ad-dalu costau gofal yn weithredol yng nghyswllt plant 15 oed neu iau a phersonau eraill y gall yr Aelod neu Aelod Gyfetholedig ddangos bod angen gofal ar eu cyfer. Os oes mwy nag un person yn ddibynnol ar Aelod neu Aelod Cyfetholedig gall yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, os gall yr Aelod ddangos bod angen gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal.

7.3 Gall Aelodau cymwys hawlio ad-dalu costau gofal ar gyfer costau gwirioneddol ac mae derbynneb amdanynt hyd at uchafswm heb fod yn uwch na'r hyn a benderfynwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a nodir yn **Atodlen 1**. Dylid gwneud pob hawliad am ad-dalu costau gofal mewn ysgrifen i'r Tîm Cyflogres yn rhoi manylion amserau, dyddiadau a rhesymau dros hawlio. Mae angen derbynebau ar gyfer trefniadau gofal anffurfiol a ffurfiol.

8. Absenoldeb Teulu

8.1 Mae gan Aelodau hawl dan ddarpariaethau Rheoliadau Absenoldeb Teulu ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teulu y mae ganddynt hawl i fod yn absennol gyfarfodydd yr awdurdod os ydynt yn bodloni'r amodau a nodir.

8.2 Pan fyddant yn cymryd absenoldeb teulu mae gan Aelodau hawl i gadw cyflog sylfaenol beth bynnag yw eu cofnod presenoldeb yn union cyn cychwyn ar yr absenoldeb teulu.

8.3 Os bydd deiliad cyflog uwch yn gymwys am absenoldeb teulu gall barhau i dderbyn eu cyflog uwch am gyfnod yr absenoldeb.

8.4 Os yw'r awdurdod yn cytuno bod angen penodi dirprwy i lanw dros absenoldeb teulu deiliad cyflog uwch bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys i dderbyn cyflog uwch os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.

8.5 Os yw talu i ddirprwy yn golygu bod yr awdurdod yn mynd dros yr uchafswm o gyflogau uwch, caniateir ychwanegiad at yr uchafswm hwnnw ar gyfer cyfnod y dirprwyad.

9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig

9.1 Caiff ffi ddyddiol ei dalu i Aelodau Cyfetholedig gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) os ydynt yn Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio.

9.2 Bydd uchafswm o 10 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer taliadau i Aelodau Cyfetholedig ar gyfer pob pwyllgor y gall unigolyn gael ei gyfethol iddynt.

9.3 Bydd taliadau yn rhoi ystyriaeth i amser teithio i ac o fan y cyfarfod, cyfnod rhesymol ar gyfer paratoi cyn cyfarfod a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol)

9.4 Dynodir mai'r Prif Swyddog Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth (Swyddog Monitro) yw'r "swyddog priodol" a bydd yn penderfynu ar yr amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod, a chaiff y ffi ei dalu ar sail y penderfyniad hwnnw.

9.5 Gall y Prif Swyddog Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth (Swyddog Monitro) benderfynu ymlaen llawn os yw cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer diwrnod llawn a chaiff y ffi ei dalu ar sail y penderfyniad hwnnw er bod y cyfarfod yn dod i ben cyn i bedair awr fynd heibio.

9.6 Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel hyd at 4 awr.

9.7 Diffinnir cyfarfod diwrnod llawn fel dros 4 awr.

9.8 Caiff ffi dyddiol a hanner diwrnod Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau a'r Pwyllgor Archwilio, fel y'i penderfynir gan Banel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru, eu nodi yn **Atodlen 1.**

9.9 Caiff ffi dyddiol a hanner diwrnod Aelodau Cyfetholedig statudol eraill gyda hawliau pleidleisio, fel y'i penderfynwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, eu nodi yn **Atodlen 1.**

10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

10.1 Egwyddorion Cyffredinol

10.2 Mae gan Aelodau ac Aelodau cyfetholedig hawl i gostau teithio pan maent yn teithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' a nodir yn **Atodlen 2.** Pan mae Aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod disgwylir iddynt deithio ar y dull mwyaf effeithlon o ran cost. Wrth asesu effeithlonrwydd o ran cost, rhoddir ystyriaeth i amser taith. Gall Aelod

nad yw'n teithio ar y ffordd fwyaf gost effeithiol gael eu hawliad wedi ostwng gan y swm priodol.

10.3 Dylai Aelodau rannu cludiant lle'n bosibl.

10.4 Dylai'r pellter a hawlir ar gyfer milltiroedd fod y daith resymol fyrraf ar ffordd o'r pwynt gadael i'r pwynt lle cyflawnir y ddyletswydd, ac yn yr un modd o'r pwynt dyletswydd i'r man dychwelyd.

10.5 Caiff cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau eu nodi yn **Atodlen 3** ac mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn eu hadolygu'n flynyddol.

10.6 Pan gaiff Aelod ei atal neu ei atal yn rhannol o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Awdurdod gadw'n ôl unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy iddynt yng nghyswllt y cyfnod y maent wedi eu hatal neu eu hatal yn rhannol.

11. Teithio mewn Cerbyd Preifat

11.1 Penderfynodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol y dylai'r uchafswm cyfraddau teithio sy'n daladwy fod y cyfraddau a osodir gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer defnyddio ceir preifat, beiciau modur a beiciau pedal ynghyd ag unrhyw atodiad teithwyr.

11.2 Caiff cyfraddau milltiroedd ar gyfer cerbydau preifat a benderfynwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol eu nodi yn **Atodlen 3.**

11.3 Lle mae Aelod yn defnyddio eu cerbyd preifat ar gyfer dibenion dyletswydd cymeradwy, mae'n rhaid i'r cerbyd gael ei yswirio ar gyfer defnydd busnes. Mae'n rhaid rhoi tystiolaeth o yswiriant priodol i'r Awdurdod os gwneir cais.

12. Teithio ar Drafnidiaeth Gyhoeddus

12.1 Teithio ar Drên/Bws

Os na awdurdodir fel arall, bydd tocynnau rheilffordd yn ail ddosbarth.

12.2 Costau Tacsi

Dim ond lle cafodd eu defnydd eu hawdurdodi am achosion brys lle nad oes trafnidiaeth gyhoeddus yn rhesymol ar gael yr ad-delir am gostau teithio ar dacsis, neu fod gan Aelod angen personol neilltuol. Dim ond os cyflwynir anfoneb y gwneir ad-daliad.

12.3 Tocynnau Awyr (opsiynol)

Caniateir teithio awyr os mai dyna'r dull mwyaf effeithiol o ran cost ar gyfer teithio. Mae angen awdurdodiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a bydd y Cyngor yn prynu tocynnau'n uniongyrchol.

12.4 Teithio Dramor

Dim ond lle awdurdodwyd hynny gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y caniateir teithio dramor ar fusnes yr Awdurdod. Bydd y Cyngor yn trefnu teithio a llety yn uniongyrchol.

12.5 **Costau Teithio eraill**

Mae gan aelodau hawl i ad-daliad am ffioedd tollau, ffioedd parcio, defnyddio garej dros nos a threuliau eraill angenrheidiol cysylltiedig â theithio. Bydd angen derbynneb cyn y gwneir ad-daliad.

13. Llety Dros Nos

13.1 Dim ond lle mae busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy neu mae'r lleoliad mor bell y byddai teithio yn gynnar yn bore neu'n hwyr y nos yn afresymol y caniateir aros dros nos. Mae'n rhaid i bob arhosiad dros nos gael eu hawdurdodi ymlaen llaw gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

13.2 Bydd y Cyngor yn archebu llety dros nos yn uniongyrchol. Lle bynnag sy'n bosibl caiff llety dros nos ei dalu ymlaen llaw neu ceir anfoneb amdano.

13.3 Dim ond mewn argyfwng y caniateir i Aelod archebu llety dros nos yn uniongyrchol. Dim ond pan ddangosir derbynneb y gwneir ad-daliad a bydd ar lefel a fernir yn rhesymol a heb fod yn uwch na'r cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3.**

14 Lwfans Cynhaliaeth

14.1 Caiff y gyfradd cynhaliaeth ddyddiol i dalu am gostau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad gyda dyletswyddau cymeradwy (yn cynnwys brecwast lle na ddarperir hynny fel rhan o lety dros nos) ei nodi yn **Atodlen 3.** Mae'r uchafswm cyfradd ddyddiol yn cwmpasu cyfnod 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd bwyd sy'n berthnasol, cyn belled ag y caiff hawliad o'r fath ei gefnogi gan dderbynneb(au).

14. 2 Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hawliadau cynhaliaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol.

15. Hawliadau a Thaliadau

15.1 Mae'n rhaid gwneud hawliadau am lwfansau teithio a chynhaliaeth mewn ysgrifen o fewn dau fis o ddiwedd y mis calendr y mae'r hawl i lwfansau yn codi ac mae'n rhaid cyflwyno'r derbynebau perthnasol.

15.2 Caiff lwfansau eu talu gan y Prif Swyddog Adnoddau drwy gredyd banc uniongyrchol.

16. Pensiynau

16.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

17 Cefnogi gwaith Aelodau'r Awdurdod

17.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn disgwyl i Aelodau gael cefnogaeth ddigonol i gyflawni eu dyletswyddau ac y dylai'r gefnogaeth a roddir roi ystyriaeth i anghenion penodol Aelodau unigol. Mae angen i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod adolygu lefel y gefnogaeth a roddir i Aelodau a dylai fynd â chynigion am gefnogaeth resymol i'r cyngor llawn.

17.2 Dylai pob Aelod etholedig ac Aelodau Cyfetholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol i roi mynediad electronig i wybodaeth briodol.

17.3 Dylai cefnogaeth o'r fath fod heb gost i unrhyw Aelod. Rhaid peidio gwneud didyniadau o gyflogau Aelodau fel cyfraniad at gost cefnogaeth y penderfynodd yr Awdurdod sydd ei angen ar gyfer effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Aelodau.

18 Cydymffurfiaeth

18.1 Yn unol â'r Rheoliadau, mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio gyda gofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yng nghyswllt monitro a chyhoeddi taliadau a wneir i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig fel y nodir yn **Atodlen 4.**

Caiff Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig eu hatgoffa y caiff hawliadau costau eu harchwilio'n fewnol ac allanol.

ATODLEN 1

RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2019-20

AELODAU SYDD Â HAWL I GYFLOG SYLFAENOL	SWM BLYNYDDOL CYFLOG SYLFAENOL
Yr aelodau etholedig dilynol a enwir o'r awdurdod	£13,868
1. J P. Morgan	"
2. A. Moore	"
3. K. Rowson	"
4. R J. Hill	"
5. B. Thomas	"
6. M. Day	"
7. D. Hancock	"
8. M. Cook	"
9. G. Paulsen***	"
10. K. Pritchard	"
11. J. Holt	"
12. P. Edwards ****	"
13. G A. Davies	"
14. C. Meredith**	"
15. J. Millard	"
16. M. Holland	"
17. G. Thomas	"
18. G L. Davies	"
19. L. Winnett*	"
20. D. Bevan	"
21. T. Sharrem **	"
22. K. Hayden	"
23. J C. Morgan **	"
24. H. McCarthy	"
25. P. Baldwin **	"
26. D. Wilkshire	"
27. M. Cross **	"
28. T. Smith	"
29. B. Willis	"
30. L. Elias	"
31. W.Hodgins	"
Dynodi yr hepgorwyd swm o £90 y flwyddyn	
****** Dynodi yr hepgorwyd swm o £125 y flwyddyn***	
******* Dynodi yr hepgorwyd swm o £200 y flwyddyn***	
******** Dynodi yr hepgorwyd swm o £319.35 y flwyddyn***	

	HAWL CYFLOGAU UWCH I GYNGHORWYR (yn cynnwys cyflog blynyddol)		SWM BLYNYDDOL CYFLOG UWCH
	RÔL	**AELOD**	
1.	Arweinydd / Aelod Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol	N. Daniels	£44,100
2.	Dirprwy Arweinydd / Aelod Gweithredol - Yr Amgylchedd	G. Collier	£31,100
3.	Aelod Gweithredol - Addysg	J. Collins	£27,100
4.	Aelod Gweithredol - Adfywio a Datblygu Economaidd	D. Davies	£27,100 (Ildiodd £2,800 y flwyddyn)
5.	Aelod Gweithredol - Gwasanaethau Cymdeithasol	J. Mason	£27,100
6.	Cadeirydd Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol	S. Healy	£22,568
7.	Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu	H. Trollope	£22,568
8.	Cadeirydd Pwyllgor Craffu Adfywio	L. Parsons	£22,568
9.	Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol	J. Wilkins	£22,568
10.	Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddiol a Thrwyddedu Cyffredinol	R. Summers	£22,568 (Ildiodd £268 y flwyddyn)
11.	Arweinydd yr Wrthblaid / Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol	S. Thomas	£22,568 (Ildiodd £180 y flwyddyn)
12.	Heb ei ddefnyddio		
13.			
14.			
15.			
16.			
17.			
Gellir talu cyflog uwch i 17 o gynghorwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac ni aed tu hwnt i'r nifer hwnnw.			

HAWL I GYFLOGAU DINESIG		SWM BLYNYDDOL CYFLOG DINESIG
SWYDD	**AELOD**	
Pennaeth Dinesig (Maer/Cadeirydd)	Heb ei ddefnyddio	
Dirprwy Bennaeth Dinesig (Dirprwy Faer/Cadeirydd)	Heb ei ddefnyddio	

HAWL FEL AELODAUU CYFETHOLEDIG STATUDOL		SWM LWFANSAU AELODAU CYFETHOLEDIG
SWYDD	**AELOD**	
Cadeirydd Pwyllgor Safonau	R. Alexander	£256 Ffi Diwrnod £128 Ffi ½ Diwrnod
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio	P. Williams	£256 Ffi Diwrnod £128 Ffi ½ Diwrnod
Aelodau Cyfetholedig Statudol - Pwyllgor Safonau, Addysg	H. Roberts E. Hackling J. Price J. Evans S. Williams A. Williams	£198 Ffi Diwrnod £99 Ffi ½ Diwrnod
Aelodau Cyfetholedig Statudol - aelodau cyffredin Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Cymunedol	Heb ei ddefnyddio	£226 Ffi Diwrnod £113 Ffii ½ diwrnod

Ad-dalu costau gofal	
Pob Aelod	Hyd at uchafswm o £403 y mis

Cefnogaeth i Aelodau - yr hyn a ddarperir o ran ffôn, rhyngrwyd neu e-bost (gweler Penderfyniad 6)	
Cefnogaeth Ffôn i Aelodau Gweithredol	
Cefnogaeth Ffôn i Gadeiryddion Pwyllgorau	
Cefnogaeth Ffôn i bob Aelod arall	
Mynediad i E-bost ar gyfer Aelodau Gweithredol	

Mynediad i E-bost ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau	
Mynediad i E-bost ar gyfer pob Aelod arall	
Cefnogaeth Rhyngrwyd i Aelodau Gweithredol	
Cefnogaeth Rhyngrwyd i Gadeiryddion Pwyllgorau	
Cefnogaeth Rhyngrwyd i bob Aelod arall	

ATODLEN 2

Dyletswyddau cymeradwy: -

- mynychu cyfarfod yr Awdurdod neu unrhyw bwyllgor o'r Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn penodi neu enwebu iddo neu unrhyw bwyllgor corff o'r fath;

- mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohono;

- mynychu unrhyw gyfarfod arall y caiff ei gynnal ei awdurdodi gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor o'r Awdurdod neu gan gyd-bwyllgor o'r Awdurdod ac un neu fwy o Awdurdodau eraill;

- dyletswydd a wneir ar gyfer diben neu mewn cysylltiad â gweithredu swyddogaethau'r Pwyllgor Gweithredol;

- dyletswydd a wneir mewn cysylltiad gyda gweithredu unrhyw swyddogaeth yr Awdurdod sy'n grymuso neu sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod archwilio neu awdurdodi archwilio safle;

- mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu datblygu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod neu ei Gabinet;

- unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwywyd gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd arall dosbarth a gymeradwywyd, a wneir ar gyfer diben neu mewn cysylltiad gyda gweithredu swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw bwyllgor iddo.

ATODLEN 3

Cyfraddau Milltiredd

Pob maint o gerbyd modur preifat Hyd at 10,000 milltir Dros 10,000 milltir	 45 ceiniog y filltir 25 ceiniog y filltir
Beiciau Modur Preifat Beiciau Pedal	24 ceiniog y filltir 20 ceiniog y filltir
Atodiad teithwyr	05 ceiniog y filltir

Lwfans Cynhaliaeth

Mae'r gyfradd cynhaliaeth dydd hyd at uchafswm o £28 yr wythnos ac mae'n cwmpasu cyfnod 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd bwyd os yn berthnasol os caiff unrhyw hawliad ei gefnogi gan dderbynebau.

Ni chaniateir ad-dalu am ddiodydd alcoholig.

Aros Dros Nos

Yr uchafswm lwfans ar gyfer aros dros nos yw £200 ar gyfer Llundain a £95 ar gyfer mannau eraill. Mae uchafswm o £30 ar gael ar gyfer arhosiad dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra ar ddyletswydd gymeradwy.

ATODLEN 4

Cydymffurfiaeth

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y cyngor y cyfanswm y mae wedi ei dalu i bob Aelod ac Aelod Cyfetholedig yng nghyswllt cyflog, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau erbyn dim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'n cyfeirio ato. Er mwyn tryloywder bydd yn cynnwys ad-daliad gan bob apwyntiad gwasanaeth cyhoeddus a ddelir gan Aelodau etholedig.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y cyngor ddatganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifiadau rôl ar gyfer deiliaid swydd cyflog uwch, sy'n nodi'n glir y dyletswyddau a ddisgwylir.

- Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ar wefan y cyngor y rhestr flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau erbyn dim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r rhestr yn cyfeirio ati.

- Bydd yr awdurdod yn anfon copi o'r rhestr at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol erbyn dim hwyrach na 31 Gorffennaf y flwyddyn y mae'r rhestr yn cyfeirio ati.

- Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnod o bresenoldeb Aelodau/Aelodau Cyfetholedig mewn cyfarfodydd o'r cyngor, cabinet a phwyllgorau a dyletswyddau cymeradwy eraill y mae Aelod/Aelod Cyfetholedig yn cyflwyno hawliad am ad-daliad ar eu cyfer.

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y cyngor adroddiadau blynyddol a baratowyd gan Aelodau.

- Pan fo'r Awdurdod yn cytuno i dalu am ddirprwy dros absenoldeb teulu bydd yn hysbysu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad am y manylion yn cynnwys y swydd neilltuol a chyfnod y dirprwyo.